



Llywodraeth Cymru

Dogfen Ymgynghori

Adolygu Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd) (Silwair, Slyri ac Olew Tanwydd Amaethyddol) (Cymru) 2010

Dyddiad cyhoeddi: 26 Awst 2015

Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 20 Tachwedd 2015

Trosolwg

Mae Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd) (Silwair, Slyri ac Olew Tanwydd Amaethyddol) (Cymru) 2010 (SSOTA) yn pennu safonau ar gyfer gwneud silwair a storio silwair, slyri ac olew tanwydd amaethyddol, er mwyn sicrhau bod cyn lleied o berygl â phosibl i ddŵr gael ei lygru. Mae'r sylweddau hyn i gyd wedi achosi digwyddiadau llygredd sylweddol, yn aml am nad oes gan ffermydd ddigon o le i'w storio, neu am fod y systemau storio'n rhai o ansawdd gwael.

Gall elifiant silwair a thail anifeiliaid gyfrannu at lygru'r amgylchedd pan gânt eu taenu ar dir y tu allan i'r tymor tyfu, neu mewn tywydd amhriodol. Mae systemau storio digonol yn galluogi ffermwyr i reoli gwrteithiau organig gwerthfawr, fel eu bod yn gallu cael eu taenu yn unol â gofynion y cnwd a lleihau'r ddibyniaeth ar wrteithiau gwneuthuredig drud. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â'r gofynion ar gyfer silwair a slyri yn unig. Bwriedir ymgynghori ynghylch yr elfennau sy'n ymwneud ag olew tanwydd ar wahân.

Cafodd y Rheoliadau eu cyflwyno'n wreiddiol ym 1991 wrth weithredu Deddf Adnoddau Dŵr 1991. Dyma oedd y Rheoliadau cyntaf a oedd wedi'u bwriadu'n benodol i fynd i'r afael â llygredd dŵr o ganlyniad i weithgareddau amaethyddol ac maent yn elfen bwysig o gyflawni rhwymedigaethau Cymru o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Ers cyflwyno'r Rheoliadau, dim ond mân ddiwygiadau sydd wedi cael eu gwneud iddynt. Gan hynny, yn unol â sylwadau a wnaed gan randdeiliaid ac egwyddorion Hwyluso'r Drefn, mae Llywodraeth Cymru am ddiweddarau'r Rheoliadau i sicrhau eu bod yn briodol ar gyfer arferion ffermio modern ac yn gydnaws â Rheoliadau cysylltiedig sy'n effeithio ar y sector amaethyddol. Bydd hyn yn arwain at fwy o ddealltwriaeth am ofynion y rheoliadau.

Sut i ymateb

Gellir cyflwyno ymatebion ar-lein trwy ein gwefan:

www.wales.gov.uk/consultations
www.cymru.gov.uk/ymgyngoriadau

Fel arall, gallwch gwblhau'r holiadur yn y ddogfen hon a'i anfon i'r cyfeiriad canlynol:

Y Gangen Rheoli Tir yn Gynaliadwy
Yr Is-adran Amaeth a Materion Gwledig
Llywodraeth Cymru
Rhodfa Padarn
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3UR

E-bost: SLMenquiries@wales.gsi.gov.uk

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gallwch ofyn am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Manylion cysylltu

I gael rhagor o wybodaeth:

Andrew Chambers

Y Gangen Rheoli Tir yn Gynaliadwy
Yr Is-adran Amaeth a Materion Gwledig
Llywodraeth Cymru
Rhodfa Padarn
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3UR

e-bost: andrew.chambers@wales.gsi.gov.uk

Diogelu data

Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod i ni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn yn eu cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

Cyflwyniad

Mae symiau digonol o ddŵr heb ei lygru yn hanfodol i economïau a chymunedau lleol gan ein bod yn dibynnu arno, nid dim ond ar gyfer dŵr yfed glân i'n cartrefi a'n busnesau ond ar gyfer bron pob agwedd ar ein bywydau. Mae'r nwyddau yr ydym yn eu prynu, o fwyd a dillad i eitemau uwch-dechnolegol megis ffonau clyfar, goroesiad ein hecosystemau, twristiaeth a thrafnidiaeth oll yn ddibynol ar ddŵr glân. Mae dŵr hefyd yn gwneud cyfraniad sylweddol at ein hiechyd a'n llesiant, gan gynnwys ar gyfer hamdden, ac ar gyfer lliniaru effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ac addasu iddynt.

Mae ein gweithgareddau i gyd yn rhoi pwysau enfawr ar ddŵr. Dengys tystiolaeth fod tuag 14% o'r methiannau o ran ansawdd dŵr o dan y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr yn gysylltiedig â gweithgareddau amaethyddol. Mae datblygu trefol, seilwaith draenio ac amddiffynfeydd rhag llifogydd wedi gwaethgu'r materion hynny ymhellach. Mae adfer amgylchedd dŵr Cymru yn flaenoriaeth ac yn gam gweithredu allweddol o fewn rhaglen Llywodraeth Cymru ar gyfer yr amgylchedd a chynaliadwyedd.

Mae Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd) (Silwair, Slyri ac Olew Tanwydd Amaethyddol) (Cymru) 2010 (SSOTA) yn rhan annatod o'r fframwaith rheoleiddio yng Nghymru, sydd wedi'i fwriadu i sicrhau bod ansawdd a swm y dŵr, yr ydym yn dibynnu arno am gymaint o agweddau ar ein bywydau, yn ddigonol. Mae hefyd yn amcanu at ddefnydd effeithlon o wrteithiau ac, felly, at lai o golledion ariannol i ffermwyr trwy gyfyngu ar y ddibyniaeth ar wrteithiau gwneuthuredig costus. Mae'r Rheoliadau, trwy hybu defnydd effeithlon o adnoddau, hefyd yn cyfrannu at gyflawni ein rhwymedigaethau fel y'u nodir mewn nifer o Gyfarwyddbau Ewropeaidd.

Gellir gweld y Rheoliadau trwy ddilyn y ddolen ganlynol:

<http://www.legislation.gov.uk/wsi/2010/1493/made>

Gellir gweld y Canllawiau ar SSOTA i Ffermwyr trwy ddilyn y ddolen ganlynol:

<http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/farmingandcountryside/farmcountrypublicationindex/ssafowalesregs2010/?lang=cy>

Mae gweithredu'r Gyfarwydddeb Nitradau yn un o'r offerynnau allweddol ar gyfer diogelu dyfroedd rhag pwysau amaethyddol ac yn hanfodol i gyflawni'r Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr. Mae'r Gyfarwydddeb Nitradau yn ei gwneud yn ofynnol sefydlu Parthau Perygl Nitradau i ddiogelu dŵr rhag cael ei lygru gan nitradau. Mae Parth Perygl Nitradau (PPN) yn ardal o dir sy'n draenio i mewn i ddyfroedd daear neu wyneb sy'n uchel mewn nitradau ar hyn o bryd, neu a allai ddod yn uchel mewn nitradau os na chymerir camau gweithredu priodol.

Mae'r agweddau technegol ar y Rheoliadau SSOTA yn allweddol i weithredu Rheoliadau Atal Llygredd Nitradau (Cymru) 2013 (y Rheoliadau PPN), sy'n gweithredu'r Gyfarwydddeb Nitradau yng Nghymru. Mae rheoliadau ar gynhwysedd ac adeiladwaith gosodweithiau'n elfennau gorfodol o'r Gyfarwydddeb.

Cafodd y Rheoliadau SSOTA eu gwneud gyntaf ym 1991 ac nid ydynt wedi newid mewn unrhyw ffordd sylweddol ers hynny, ond eto mae arferion ffermio wedi esblygu'n sylweddol. Mae'n bwysig ein bod yn sicrhau bod Rheoliadau'n addas ar gyfer arferion ffermio heddiw ac felly nod yr ymgynghoriad hwn yw diweddarau'r Rheoliadau, lle y bo'n fuddiol, heb gynyddu'r baich rheoleiddiol.

Cwmpas yr adolygiad

Nod yr ymgynghoriad hwn yw ystyried a fyddai newidiadau i'r Rheoliadau SSOTA yn fuddiol ar gyfer defnyddio a rheoli slyri a silwair yn ymarferol ac yn effeithlon. Mae Llywodraeth Cymru yn adolygu'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer rheoli slyri a silwair i wella ansawdd a dŵr a dwyn budd ariannol i ffermwyr trwy ddealltwriaeth well am reoli maethynnau.

Yn arbennig, mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio mynd i'r afael â'r materion canlynol:

- Ar hyn o bryd mae dulliau gwahanol ar gyfer cyfrifo lle storio a gofynion gwahanol ar gyfer canfod cynhwysedd storfeydd slyri dan y Rheoliadau SSOTA a PPN. Er y gall fod angen gofynion ychwanegol o fewn PPNau oherwydd anghenion o ran ansawdd dŵr, byddai dull cyffredin ar gyfer cyfrifo anghenion storio yn creu llai o ddryswch ac yn hwyluso dealltwriaeth well am y gofynion.
- Gallai'r diffiniadau a ddefnyddir o fewn y Rheoliadau gael eu hegluro i roi mwy o dryloywder o ran sut y dylai'r Rheoliadau gael eu dehongli a'u gorfodi.
- Gall fod angen ymgorffori safonau storio diwygiedig i gynnwys safonau adeiladu newydd (Ewrogodau), deunyddiau newydd a safonau ac arferion storio cysylltiedig. Caiff arferion o ran storio tail mewn tomennydd mewn caeau eu hystyried.
- Eglurhad o'r gofyniad i gynnal a chadw gosodweithiau, fel eu bod yn dal i gydymffurfio â safonau adeiladu, trwy gyfundrefn asesu reolaidd, briodol. Gall cyfundrefn o'r fath fod yn fecanwaith hefyd i fynd i'r afael â'r perygl posibl a achosir gan storfeydd y mae'r esemptiad yn

Rheoliad 6 yn gymwys iddynt, sef bod storfeydd a adeiladwyd, neu a oedd wrthi'n cael eu hadeiladu, cyn 1991 wedi'u hesemptio o ofynion y Rheoliadau SSOTA.

- Dylid darparu eglurhad pa un a yw'r gofyniad o ran cynhwysedd storio ar gyfer slyri a gynhyrchir dros gyfnod o 4 mis yn gymwys i'r rhai heb unrhyw storfa, neu storfa a adeiladwyd cyn 1991, o ystyried yr esemptiad yn ôl Rheoliad 6 .
- Ar hyn o bryd, mae'n rhaid hysbysu Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) o leiaf 14 diwrnod cyn bod gosodwaith yn cael ei ddefnyddio gyntaf. Fodd bynnag, os nad yw dyluniad y storfa'n cydymffurfio â'r rheoliadau, gall fod angen gwneud addasiadau costus. Felly, byddai gofyniad i hysbysu CNC ar y cam dylunio'n osgoi achosion o'r fath. Dylai'r hysbysiadau, ar y cam dylunio ac 14 diwrnod cyn y defnydd cyntaf, gael eu cyflwyno gyda datganiad wedi'i lofnodi gan y pensaer/cwmni adeiladu bod dyluniad neu adeiladwaith y gosodwaith yn cydymffurfio â'r rheoliadau. Er y gallai hyn gynyddu'r baich rheoleiddio gweinyddol mae'n lleihau'r perygl o fwy o faich rheoleiddiol o ganlyniad i addasiadau costus neu ailadeiladu a chatau gorfodi. Mae hefyd yn lleihau'r perygl o atebolrwydd i'r ffermwr, a allai fod yn sylweddol mewn achosion o fethiant trychinebus.
- Dylid cynnwys eglurhad o ran y gofynion ar gyfer storio gweddillion treuliad anaerobig, o ystyried y defnydd cynyddol o dreulio anaerobig ar ffermydd.
- Ar hyn o bryd nid oes sancsiynau canolradd ar gael i orfodi'r rheoliadau, gyda chyrrff rheoleiddio'n aml yn gorfod dewis rhwng rhoi rhybudd a chymryd camau troseddol. Byddai ei gwneud yn bosibl defnyddio sancsiynau sifil yn darparu mecanwaith gorfodi cymesur. Mae hyn yn golygu y byddai Cyfoeth Naturiol Cymru yn gallu gorfodi'r rheoliadau'n briodol a chadw camau erlyn troseddol ar gyfer y troseddau mwyaf difrifol.

Mae cynigion i dynnu a disodli'r elfen o'r rheoliadau SSOTA sy'n ymwneud â storio olew tanwydd amaethyddol yn destun ymgynghoriad ar wahân. Y nod yw sicrhau bod safon gyffredin yn berthnasol i'r holl weithgareddau storio olew yng Nghymru a bydd yn cael gwared ar esemptiad presennol ar gyfer systemau storio o'r fath sy'n dyddio ers cyn 1991. Gellir gweld yr ymgynghoriad ynghylch y Rheoliadau Atal Llygredd (Storio Olew) (Cymru) ar wefan Llywodraeth Cymru yn:

Cyfrifo cynhwysedd storfeydd

Gall y dulliau gwahanol ar gyfer cyfrifo lle storio a gofynion gwahanol ar gyfer canfod cynhwysedd storfeydd slyri o dan y Rheoliadau SSOTA a PPN achosi dryswch. O dan y Rheoliadau SSOTA, mae angen lle storio am isafswm o 4 mis, a hwnnw wedi'i gyfrifo gan ddefnyddio ffigyrau glawiad tebygol, tra bo'r Rheoliadau PPN yn ei gwneud yn ofynnol bod â lle storio am 5 mis ar gyfer da byw sy'n pori a lle storio am 6 mis ar gyfer da byw nad ydynt yn pori, a hwnnw wedi'i gyfrifo gan ddefnyddio ffigyrau glawiad tebygol. Mae hyn yn golygu y bydd y gofynion storio fel arfer ychydig yn fwy ar gyfer y rhai o fewn PPN.

Gwnaed cynnig i gysoni cyfrifiadau storio'r Rheoliadau SSOTA a PPN yn yr ymgynghoriad ynghylch Adolygu Parthau Perygl Nitradau yng Nghymru yn 2012, ac fe'i gwrthodwyd gan y mwyafrif o'r ymatebwyr.

Cyfeiriodd y rhai a oedd yn anghytuno â'r cynnig at y diffyg tystiolaeth a oedd ar gael i ategu'r angen am ofynion storio uwch y tu allan i'r PPNau. Darparwyd gwybodaeth i ddynodi bod digwyddiadau llygredd sy'n gysylltiedig â rheoli tail, yn y mwyafrif llethol o achosion, yn gysylltiedig â diffygion storio sylweddol, yn hytrach na'u bod yn digwydd ar ffermydd lle mae'r gofyniad i fod â lle storio am bedwar mis dan y rheoliadau SSOTA wedi cael ei fodloni.

Cafodd y baich ariannol ar ffermwyr y tu allan i PPNau ei nodi gan y mwyafrif o'r ymatebwyr a wrthododd y cynnig fel eu rheswm dros wneud hynny. Cafodd y gwriad oddi wrth argymhellion yr adroddiad Hwyluso'r Drefn ei amlygu hefyd mewn gwrthwynebiadau i'r cynnig.

Yn yr ymgynghoriad hwn rydym yn cynnig y dylai'r dull o gyfrifo lle storio a ddefnyddir yn y Rheoliadau PPN gael ei fabwysiadu yn y Rheoliadau SSOTA i gael gwared ar y dryswch a achosir gan ddau ddull cyfrifo. Mae hyn yn gyson ag argymhellion yr adroddiad Hwyluso'r Drefn. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau nad yw'r newid hwn yn lleihau cadernid ar gyfer gosodweithiau newydd, bydd y gofyniad i fod â 5 mis o gynhwysedd ar gyfer tail da byw a 6 mis ar gyfer tail moch a dofednod yn cael ei gario drosodd hefyd. Y rheswm dros hyn yw y byddai mabwysiadu'r dull cyfrifo yn y Rheoliadau PPN, sy'n defnyddio ffigyrau glawiad gwahanol ac nad oes angen iddo gynnwys dŵr sydd ychydig yn fudr o anghenraid (gweler yr adran Diffiniadau Eglurhaol isod), yn golygu, yn y rhan fwyaf o achosion, y byddai cyfnod storio o 4 mis a gyfrifwyd gan ddefnyddio'r dull cyfrifo lle storio yn y Rheoliadau PPN yn creu gofyniad am lai o le storio nag sy'n ofynnol ar hyn o bryd dan y dull cyfrifo presennol yn y

Rheoliadau SSOTA. Bydd esemptiad tebyg i'r un a ddarperir gan Reoliad 6 yn cael ei gynnwys hefyd, fel bod dim angen i osodweithiau a adeiladwyd cyn y newid gael eu haddasu mewn unrhyw ffordd. Bydd yr esemptiad yn y Rheoliadau SSOTA ar gyfer storfeydd a oedd yn cael eu defnyddio neu a adeiladwyd cyn mis Mawrth 1991 yn cael ei gadw hefyd, ac felly hefyd y dewis i reoli slyri mewn ffyrdd eraill.

Fel rhan o'r newid hwn cydnabyddir y bydd hyrwyddo a chynghori ynghylch arferion effeithlon, megis cyfyngu defnydd i'r hyn sy'n ofynnol ar gyfer cynydu, gwahanu dŵr glân ac argaeledd grantiau perthnasol, yn ddefnyddiol o ran helpu ffermwyr i fabwysiadu'r newid hwn, fel y byddai cyhoeddi ffigyrau glawiad. Mae defnydd effeithlon o wrteithiau, megis cyfyngu defnydd i'r hyn sy'n ofynnol ar gyfer cynydu, yn hanfodol i ostwng costau ffermydd sy'n gysylltiedig â cholli maethynnau ac i ateb gofynion y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr. Gall methiant i ddiogelu ansawdd dŵr rhag llygredd arwain, er enghraifft, at ddynodiad fel Parth Perygl Nitradau, fel sy'n ofynnol yn ôl y Gyfarwydddeb Nitradau Ewropeaidd. Bydd y canllawiau diwygiedig yn rhoi cyngor manwl.

Dylid cynnwys eglurhad ynghylch y gofynion ar gyfer storio gweddillion treuliad anaerobig, o ystyried y defnydd cynyddol o dreulio anaerobig ar ffermydd.

Cwestiwn 1

Ydych chi'n cytuno y dylai'r dull a'r gofynion ar gyfer cyfrifo lle storio yn y Rheoliadau SSOTA gael eu newid i'r rhai sy'n ofynnol yn ôl y Rheoliadau PPN?

Diffiniadau eglurhaol

Gallai'r diffiniadau a ddefnyddir yn y Rheoliadau gael eu hegluro i roi mwy o dryloywder o ran sut y dylai'r Rheoliadau gael eu dehongli a'u gorfodi.

Bydd diffiniadau'n cael eu cynnwys fel a ganlyn:

Dŵr budr

Byddai eglurhad yn helpu i leihau'r dryswch i ffermwyr o ran ymdrin â 'dŵr budr', sy'n dechnegol yn slyri ond yn cynnwys llai o nitrogen na mathau eraill o slyri. Rydym yn bwriadu mabwysiadu'r un dull ar gyfer 'dŵr budr' ag a sefydlwyd yn y Rhaglen Gweithredu PPN. Gan hynny, gall 'dŵr budr' gael ei gyfeirio at storfa ar wahân ar gyfer dyfrhau caeau'n rheolaidd ac felly nid oes angen iddo, o anghenraid, gael ei gynnwys mewn cyfrifiadau storio slyri.

I roi eglurhad, bydd 'dŵr budr' yn cael ei ailenwi'n 'ddŵr sydd ychydig yn fudr' ac yn cael ei ddiffinio fel dŵr ffo sydd wedi'i halogi ychydig o fuarthau concrit sydd ychydig yn fudr neu o'r llaethdy/parlwr, sydd, hyd y bo'n rhesymol ymarferol, wedi cael eu crafu neu eu brwsio yn syth ar ôl eu defnyddio, a chaiff ei gasglu ar wahân i fathau eraill o slyri. Nid yw'n cynnwys draeniad o fuarthau neu adeiladau a ddefnyddir i gartrefu neu fwydo da byw, hylifau o storfeydd wal hidlo, storfeydd tail ar wynebau caled, bocsys hidlo, gwahanwyr slyri nac elifiant silwair, y maent i gyd yn llawn nitrogen.

Elifant tomennydd tail

Mae elifant o dail buarth fferm sy'n cael ei storio ar wyneb solet yn dechnegol yn slyri hefyd a dylai gael ei drin felly. Bydd eglurhad o'r gofyniad i ollyngiadau o dail buarth fferm sy'n cael ei storio ar wyneb solet gael eu casglu a'u storio fel slyri'n cael ei gynnwys o fewn y Rheoliadau SSOTA .

Bydd y diffiniad yn egluro bod gwahaniaeth rhwng tomennydd tail sydd â slyri'n gollwng ohonynt a thail solet sy'n cael ei storio dros dro mewn tomen ar ei ben ei hun, sydd heb unrhyw hylif yn draenio o'r deunydd .

Diffiniadau o Esemptiadau

Mae'r Rheoliadau'n amodi bod gosodweithiau a ddefnyddid neu a adeiladwyd cyn mis Mawrth 1991, neu lle y cafodd contract ei wneud cyn mis Mawrth a'i gwblhau cyn mis Medi 1991, wedi'u hesemptio o'r gofynion adeiladu yn y Rheoliadau, ac y gellir eu defnyddio fel arfer, yn amodol ar rai cyfyngiadau.

Pan fo gosodwaith yn cael ei ehangu'n sylweddol neu ei ailadeiladu'n sylweddol bydd y Rheoliadau'n gymwys i'r adeiledd hwnnw, a bydd yn gymwys i'r gosodwaith cyfan, nid dim ond y rhan a ehangwyd neu a ailadeiladwyd o'r newydd. Er enghraifft, byddai gwaith mawr i addasu storfa sydd wedi'i hesemptio megis llawr newydd yn dod â'r storfa a'i draeniau a thanciau cysylltiedig o fewn cwmplas y Rheoliadau, ond ni fyddai atgyweiriadau neu fân newidiadau i bydew derbyn neu ei sianelau o anghenraid yn achosi i danc storio slyri golli ei esemptiad.

Bydd y Rheoliadau'n cael eu diwygio i ddarparu mwy o eglurder o ran pryd y byddai addasiadau i osodwaith yn golygu ei bod yn ofynnol i'r gosodwaith cyfan fodloni'r gofynion adeiladu yn y Rheoliadau SSOTA yn llawn.

Diffiniad o 'Buarth'

Mae potensial i'r diffiniad o 'buarth' gael ei ddehongli fel unrhyw ardal anhydraidd ar y fferm, gan hepgor ardaloedd eraill y dylid eu cynnwys, lle mae anifeiliaid wedi'u cau i mewn ac, felly, y dylai eu carthion gael eu casglu ohoni a'i storio. Mae'r rhain yn cynnwys ardaloedd lled-hydraidd megis corlannau sglodion coed.

Bydd diffiniad cynhwysol o 'buarth' yn cael ei gynnwys yn y Rheoliadau.

Cwestiwn 2

Ydych chi'n cytuno â'r newidiadau i'r diffiniadau fel y'u cynigir?

Cwestiwn 3

A oes unrhyw elfennau eraill o'r Rheoliadau y dylid eu hegluro neu eu diffinio'n gyfreithiol?

Safonau storio

Safonau gosodweithiau

Gall fod angen ymgorffori safonau newydd ar gyfer gosodweithiau i gynnwys deunyddiau adeiladu ac arferion a thechnegau storio newydd.

Roedd y safonau adeiladu a sefydlwyd gan y Rheoliadau SSOTA yn angenrheidiol i ddarparu ar gyfer storio gwrteithiau organig, sy'n gallu bod yn niweidiol i bob organeb, gan gynnwys da byw a phobl, yn ddiogel. Fodd bynnag, ers i'r Rheoliadau gael eu cyflwyno mae datblygiadau technolegol mewn arferion adeiladu a ffermio, megis ardaloedd cymysgu slyri addas mewn lagynau pridd wedi'u leinio i atal tyllau yn y leinin a phrofi athreiddedd pridd wrth adeiladu lagynau pridd, yn golygu y gall fod angen diweddarau'r Rheoliadau.

Mae adolygiad o CIRIA 126, adroddiad a gynhyrchwyd gan gymdeithas ymchwil a gwybodaeth y diwydiant adeiladu ar safonau technegol ar gyfer adeiladu cyfleusterau storio, yn cael ei gynnal ar hyn o bryd. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried canfyddiadau'r adolygiad gyda golwg ar ddarparu ar gyfer technolegau newydd yn y Rheoliadau, fel y bo'n briodol.

Tomennydd tail

Ar hyn o bryd, nid yw'r arfer o storio tail mewn tomennydd dros dro mewn caeau wedi'i gynnwys yn y Rheoliadau SSOTA. Mae gennym fwy o ddealltwriaeth am y perygl o lygredd o domennydd tail na phan gafodd y Rheoliadau SSOTA eu cyflwyno gyntaf. Gall trwytholchion o domennydd tail solet gynnwys crynodiadau uwch o lygryddion lluosog sy'n niweidiol i ddyfroedd wyneb.

Yn ymarferol, mae llygryddion sy'n ymdreiddio i bridd o dan domen mewn cae ac mewn dŵr ffo o'r tomennydd yn debygol naill ai o gael eu cadw yn y pridd neu o gael eu gwanedu â dŵr 'dihalog' o weddill y cae. Mae hyn yn golygu y bydd crynodiadau o lygryddion yn llai os oes rhwystrau digonol rhwng y domen yn y cae a dŵr wyneb.

Mae angen eglurder hefyd o ran y rheolau ynghylch storio a thaenu tail. Gwaherddir taenu tail o fewn 10 metr i ddŵr wyneb a 50 metr i dwll turio, ffynnon neu bydew mewn rheolau trawsgydymffurfio ac mewn Parthau Perygl Nitradau ac mae hefyd yn arfer gorau, fel a nodir yn y Cod Ymarfer Amaethyddol Da. Byddai tomen dail o fewn y parthau gwaharddedig hyn yn cael ei hystyried yn achos o dorri'r rheolau gan y byddai, i bob pwrpas, yn gymhwysiad sylweddol.

Gallai hepgor rheolau yn y Rheoliadau SSOTA greu cymhelliad hefyd i storio tail mewn tomennydd mewn caeau fel ffordd o osgoi dulliau storio eraill, gan waethygu'r mater.

Cydnabyddir hefyd bod tail o geffylau nad ydynt yn rhai amaethyddol o bosibl yn achosi mwy o berygl o lygredd oherwydd deddfwriaeth bresennol a rheolau trawsgydymffurfio presennol sy'n gymwys i storio tomennydd tail da byw. Mae'r gwahaniaeth hwn yn golygu y gall fferm â nifer fach o geffylau orfod cydymffurfio â rheolau ynghylch storio tail mewn tomennydd dros dro mewn caeau, tra na fyddai'n rhaid i fusnes marchogaeth â nifer fawr o geffylau gydymffurfio â'r rheolau hynny.

Er mwyn mynd i'r afael â'r pryderon uchod, cynigir y bydd rheolau ynghylch storio tail da byw a cheffylau dros dro mewn tomennydd mewn caeau'n cael eu cynnwys o fewn y rheoliadau. Er mwyn atal dryswch o ganlyniad i ddull gwahanol, bydd y rheolau'n adlewyrchu, at ei gilydd, y rhai sy'n gymwys i ffermydd mewn Parthau Perygl Nitradau, fel a ganlyn:

(1) Mae'n rhaid i safle dros dro mewn cae beidio â bod:

(a) mewn cae sy'n agored i lifogydd neu fynd yn ddyfrlawn;

(b) o fewn 50m i ffynnon, pydew neu dwll turio neu o fewn 10m i ddŵr wyneb neu ddraen tir (ac eithrio pibell anhydraidd sydd wedi'i selio);

(c) mewn unrhyw leoliad unigol am fwy na 12 mis yn olynol; neu

(d) yn yr un man ag un cynharach a adeiladwyd o fewn y ddwy flynedd ddiwethaf.

(a) rhaid peidio â symud uwchbridd o'r tir lle y bwriedir adeiladu safle dros dro mewn cae;

(b) rhaid i safle dros dro mewn cae beidio â bod o fewn 30m i gwrs dŵr ar dir sydd â goledf o fwy na 12°;

(2) Dylid cadw arwyneb unrhyw safle dros dro mewn cae mor fach ag y bo'n rhesymol ymarferol, er mwyn lleihau effeithiau trwytholchi gan ddŵr glaw.

(3) Rhaid i unrhyw dail dofednod solet, nad oes sarn yn gymysg ag ef ac a gedwir ar safle dros dro mewn cae, gael ei orchuddio â deunydd anhydraidd.

Gwlypdiroedd adeiledig

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gall defnyddio gwlypdiroedd adeiledig fod yn fuddiol i drin dŵr halogedig a lleihau costau rheoli. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi egwyddor cynnwys gwlypdiroedd adeiledig yn y Rheoliadau SSOTA. Fodd bynnag, nid yw'n ystyried bod yr wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd yn ddigonol i ddatblygu darpariaethau cynhwysfawr.

Cwestiwn 4

Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i ddarparu ar gyfer technolegau ac arferion newydd yng ngoleuni canfyddiadau adolygiad CIRIA 126?

Cwestiwn 5

Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i gynnwys rheolau ynghylch storio tail mewn tomennydd dros dro mewn caeau?

Cwestiwn 6

Ydych chi'n cytuno ag egwyddor cynnwys gwlypdiroedd adeiledig o fewn y Rheoliadau SSOTA os bydd tystiolaeth bellach ar gael i ategu hyn?

Cynnal a chadw gosodweithiau

Mae'r Rheoliadau SSOTA yn cynnwys esemptiad, sy'n amodi bod storfeydd a adeiladwyd, neu a oedd wrthi'n cael eu hadeiladu, cyn 1991 wedi'u hesemptio o ofynion y Rheoliadau SSOTA. Bydd eglurhad o'r gofyniad i gynnal a chadw gosodweithiau'n cael ei gynnwys i sicrhau bod gosodweithiau sy'n cydymffurfio â'r esemptiad yn addas ar gyfer y diben. Ystyrir bod cyfundrefn asesu reolaidd, briodol yn ddull gwell na chael gwared ar yr esemptiad, a allai olygu y byddai'n rhaid i osodweithiau sy'n addas ar gyfer y diben gael eu hailadeiladu neu eu haddasu am gost sylweddol.

Mae Llywodraeth Cymru yn credu, er nad oes angen cael gwared ar yr esemptiad, y dylai'r perygl o lygredd o osodweithiau o fewn yr esemptiad gael ei leihau trwy sicrhau bod gosodweithiau'n cael eu harchwilio a'u cynnal a'u cadw neu eu hatgyweirio'n briodol. Mae eisoes yn un o'r gofynion bod gosodweithiau nad yw'r esemptiad yn berthnasol iddynt yn cyrraedd y safonau a nodir yn y Rheoliadau.

Mae hyn yn golygu nad yw'n ddigonol i'r gosodwaith gydymffurfio â'r safonau pan gaiff ei adeiladu yn unig ond bod yn rhaid iddo gael ei gynnal a'i gadw mewn modd sy'n sicrhau ei fod yn dal i gydymffurfio â'r safonau.

Wrth weithredu darpariaeth o'r fath mae Llywodraeth Cymru yn ceisio osgoi unrhyw faich diangen. Byddai'n well ganddi bod y person sy'n rheoli gosodwaith yn gyfrifol am archwilio a sicrhau cyflwr y gosodwaith hwnnw. Mae hyn yn cynnig rhywfaint o hyblygrwydd a'r baich lleiaf posibl. Cynnigir felly bod y cyfrifoldeb am y modd y caiff hyn ei wneud yn cael ei gadw gan yr unigolyn tra bod rhaid iddo allu dangos y mecanwaith a ddefnyddir a sut y mae'n sicrhau cydymffurfiaeth.

Mae'n bwysig na fyddai cynllun o'r fath yn achosi cynnydd gormodol yn y baich rheoleiddiol ar y ffermwr gan y byddai hyn yn groes i argymhellion yr adroddiad Hwyluso'r Drefn. Bydd canllawiau'n cael eu darparu ynghylch arfer gorau.

Eglurhad o'r esemptiad

Bydd eglurhad yn cael ei ddarparu o ran sut y mae'r gofyniad i fod â chynhwysedd storio digonol yn gymwys i'r rhai â storfeydd a adeiladwyd cyn 1991, o ystyried yr esemptiad yn Rheoliad 6.

Cwestiwn 7

Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i gyflwyno cyfundrefn archwilio a chynnal a chadw ar gyfer y storfeydd hynny y mae'r esemptiad yn Rheoliad 6 yn gymwys iddynt?

Cwestiwn 8

A ddylai'r rheoliadau nodi pwy ddylai gynnal archwiliadau a sut y dylid eu cofnodi?

Cwestiwn 9

A ddylai fod yn drosedd peidio â chadw cofnod o archwiliadau?

Trawsgydymffurfio

Fel rhan o'r adolygiad o drawsgydymffurfio, fe ofynnnon ni a ddylai parthau diogelwch y Rheoliadau SSOTA a safonau adeiladu seilos a storfeydd storio slyri gael eu hymgorffori fel rhan o drawsgydymffurfio a'u gwneud yn gymwys i'r holl ffermwyr (o dan y safon GAEC ar Leiniau clustogi a'r safon GAEC ar Ddŵr Daear). Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr o blaid ond penderfynwyd y byddem yn parhau i fonitro'r effeithiau ar ansawdd dŵr o ganlyniad i'r mesurau hyn fel y'u gweithredir ac yn ystyried ymestyn y darpariaethau os oes tystiolaeth bod hyn yn angenrheidiol.

Mae parthau diogelwch yn y Rheoliadau SSOTA wedi'u bwriadu i ddarparu mesurau ychwanegol i ddiogelu rhag llygredd. Mae'r rheoliadau'n nodi na ddylai gosodweithiau gael eu hadeiladu, ac na ddylai silwair gael ei wneud, ac na ddylai silwair, elifiant, slyri nac olew tanwydd gael ei storio, o fewn 10 metr i unrhyw ddyfroedd croyw mewndirol neu ddyfroedd arfordirol y gallai unrhyw elifiant silwair, slyri neu olew tanwydd sy'n dianc fynd i mewn iddynt. Mae defnyddio pibellau draenio trydylllog o fewn 10 metr i unrhyw storfa slyri neu bydew derbyn (i symud dŵr daear eithriadol o uchel i ffwrdd) hefyd yn groes i'r Rheoliadau.

Dengys ymchwiliadau Cyfoeth Naturiol Cymru fod dros 150 o gyrff dŵr yn methu ar hyn o bryd oherwydd gweithgareddau amaethyddol. Mae'r mwyafrif

o'r methiannau hyn yn ymwneud â silwair a gweithgareddau slyri arbennig. Pe bai'r safonau adeiladu ar gyfer seilos a storfeydd slyri yn y Rheoliadau SSOTA yn cael eu cynnwys o fewn y gyfundrefn Trawsgydymffurfio, byddai hynny'n diogelu dŵr daear yn fwy rhag gwarediadau a gollyngiadau nas rheolir sy'n deilio o storfeydd sy'n cael eu cynnal a'u cadw'n wael. Byddai cydymffurfio â gofyniad newydd o'r fath yn lleihau'r perygl o gosbau o ganlyniad i ddigwyddiadau llygredd annisgwyl.

Cwestiwn 10

A ddylai'r parthau diogelwch a'r safonau adeiladu ar gyfer seilos a storfeydd slyri yn y Rheoliadau SSOTA gael eu hymgorffori yn y gyfundrefn trawsgydymffurfio?

Sanctsiynau sifil

Rydym yn cynnig galluogi Cyfoeth Naturiol Cymru i orfodi'r rheoliadau trwy Sanctsiynau Sifil.

Mae sanctsiynau sifil yn darparu dewis cymesur yn lle erlyn ar gyfer busnesau a phersonau eraill sy'n cyflawni methiant sylweddol i gydymffurfio â rheoliadau amgylcheddol. Prif amcanion defnyddio'r sanctsiynau sifil a'r fframwaith dedfrydu newydd yw:

- Gwneud camau gorfodi'n fwy cymesur a phriodol i'r amgylchiadau
- Mewn achosion addas, osgoi erlyn busnesau (ac unigolion neu sefydliadau eraill sy'n achosi troseddau amgylcheddol) gyda'r costau gweinyddol cysylltiedig a'r niwed cysylltiedig i enw da pan all sanctsiwn sifil gyflawni'r amcanion gorfodi mewn modd yr un mor effeithiol.
- Cadw camau erlyn ar gyfer y troseddau gwaethaf.
- Sicrhau bod difrod amgylcheddol a rhai effeithiau anffafriol ar gymunedau lleol yn cael eu hunioni.
- Sicrhau bod 'llygrwyr' yn talu cost eu diffyg cydymffurfiaeth i gymdeithas.
- Cael gwared ar y budd ariannol sydd i'w gael o beidio â chydymffurfio.
- Creu mwy o chwarae teg o ran cael gwared ar fanteision cystadleuol peidio â chydymffurfio.
- Rhoi cymhelliad cryfach i gydymffurfio yn y dyfodol.

Cwestiwn 11

Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i alluogi'r Rheoliadau SSOTA i gael eu gorfodi trwy sanctsiynau sifil?

Cyfnodau rhybudd

Ar hyn o bryd, mae'n rhaid i CNC gael ei hysbysu o leiaf 14 diwrnod cyn bod gosodwaith yn cael ei ddefnyddio gyntaf. Fodd bynnag, os nad yw dyluniad o gosodwaith yn cydymffurfio â'r rheoliadau, gall addasiadau costus fod yn angenrheidiol. Felly, byddai gofyniad i hysbysu CNC ar y cam dylunio'n osgoi achosion o'r fath. Bydd angen i hysbysiadau gynnwys datganiad wedi'i lofnodi gan y pensaer/cwmni adeiladu bod dyluniad neu adeiladwaith y gosodwaith yn cydymffurfio â'r rheoliadau. Mae hyn yn lleihau'r perygl o atebolrwydd i'r ffermwr, a allai fod yn sylweddol mewn achosion o fethiant trychinebus. Er y byddai hyn yn arwain at gynnydd bach mewn gwaith gweinyddol, mae Llywodraeth Cymru yn credu bod y manteision yn fwy na baich ailadeiladu neu addasu storfa nad yw'n cydymffurfio â'r rheoliadau. Gwnaed ymrwymiad i wneud y newid hwn yn ymateb Llywodraeth Cymru i'r Adolygiad o Barthau Perygl Nitradau yng Nghymru yn 2012.